***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif 181 (Cy. 42) (C. 3)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 7) 2021

*Gwnaed - - - - 22 Chwefror 2021*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 188(1) a (3) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

### Enwi a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 7) 2021.

(2) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "Deddf 2014" ("*the 2014 Act*") yw Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(**2**); ac

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

### Y diwrnod penodedig

**2.** Y diwrnod penodedig i'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf ddod i rym yw 23 Chwefror 2021—

(a) adran 56(1), i'r graddau y mae'n ymwneud ag adran 144B (adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad leol) o Ddeddf 2014, ac eithrio is-adran (2)(a)(ii) o'r adran honno;

(b) adran 6, i'r graddau y mae'n gymwys i berson sy'n dymuno darparu gwasanaeth a bennir mewn rheoliadau a wneir o dan baragraff (a) o adran 2(1); ac

(c) paragraff 30 o Atodlen 3.

(**1**) 2016 dccc 2.
(**2**) 2014 dccc 4.

*Julie Morgan*
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

22 Chwefror 2021

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Hwn yw'r seithfed Gorchymyn Cychwyn a wneir gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("y Ddeddf"). Mae'n dwyn i rym adran 56(1) o'r Ddeddf i'r graddau y mae'n mewnosod adran 144B yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014"), ac eithrio nad yw adran 144B(2)(a)(ii) wedi ei mewnosod. Mae hefyd yn dwyn i rym adran 6 o'r Ddeddf at yr holl ddibenion sy'n weddill, a pharagraff 30 o Atodlen 3 i'r Ddeddf.

**NODYN AM Y GORCHMYNION CYCHWYN CYNHARACH**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf wedi eu dwyn i rym drwy Orchmynion Cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn.

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Rhan 1 | | |
| Adran 1 | 2 Ebrill 2018 | 2017/1326 (Cy. 299) (C. 121) |
| Adran 2 (ac eithrio paragraffau (d) i (g) o is-adran (1)) | 2 Ebrill 2018 | 2017/1326 (Cy. 299) (C. 121) |
| Adran 2 (paragraffau (d) i (g) o is-adran (1)) | 29 Ebrill 2019 | 2019/864 (Cy. 156) (C. 21) |
| Adrannau 3 i 5 | 2 Ebrill 2018 | 2017/1326 (Cy. 299) (C. 121) |
| Adran 6 (yn rhannol) | 29 Ebrill 2019 | 2019/864 (Cy. 156) (C. 21) |
| Adran 6 (yn rhannol) | 1 Chwefror 2018 | 2017/1326 (Cy. 299) (C. 121) |
| Adrannau 7 i 31 | 2 Ebrill 2018 | 2017/1326 (Cy. 299) (C. 121) |
| Adrannau 32 i 55 | 2 Ebrill 2018 | 2017/1326 (Cy. 299) (C. 121) |
| Adran 56(1) (yn rhannol) | 4 Medi 2017 | 2017/846 (Cy. 206) (C. 71) |
| Adran 56(1) (yn rhannol) | 29 Ebrill 2019 | 2019/864 (Cy. 156) (C. 21) |
| Adran 56(2) | 4 Medi 2017 | 2017/846 (Cy. 206) (C. 71) |
| Adran 57 | 29 Ebrill 2019 | 2019/864 (Cy. 156) (C. 21) |
| Adran 58 | 2 Ebrill 2018 | 2017/1326 (Cy. 299) (C. 121) |
| Adran 64 | 2 Ebrill 2018 | 2017/1326 (Cy. 299) (C. 121) |
| Rhan 2 | 3 Ebrill 2017 | 2017/309 (Cy. 80) (C. 29) |
| (adrannau 65 a 66) | | |
| Rhan 3 | | |

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adran 67 (yn rhannol) | 11 Gorffennaf 2016 | 2016/713 (Cy. 191) (C. 51) |
| Adran 68 (yn rhannol) | 11 Gorffennaf 2016 | 2016/713 (Cy. 191) (C. 51) |
| Adran 73(1) a (2) (yn rhannol) | 11 Gorffennaf 2016 | 2016/713 (Cy. 191) (C. 51) |
| Adran 75 (yn rhannol) | 11 Gorffennaf 2016 | 2016/713 (Cy. 191) (C. 51) |
| Adrannau 67 i 78 i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym | 3 Ebrill 2017 | 2017/309 (Cy. 80) (C. 29) |
| Rhan 4<br><br>(adrannau 79 i 111) | 3 Ebrill 2017 | 2017/309 (Cy. 80) (C. 29) |
| Rhan 5<br><br>(adrannau 112 i 116) | 3 Ebrill 2017 | 2017/309 (Cy. 80) (C. 29) |
| Rhan 6<br><br>Adrannau 117 i 164, ac eithrio ar gyfer is-adran (5) o adran 160 | 3 Ebrill 2017 | 2017/309 (Cy. 80) (C. 29) |
| Rhan 7<br><br>(adrannau 165 i 173) | 3 Ebrill 2017 | 2017/309 (Cy. 80) (C. 29) |
| Rhan 8<br><br>(adrannau 174 a 175) | 3 Ebrill 2017 | 2017/309 (Cy. 80) (C. 29) |
| Rhan 9<br><br>(adrannau 176 i 182) | 3 Ebrill 2017 | 2017/309 (Cy. 80) (C. 29) |
| Rhan 10<br><br>(adrannau 183 a 184) | 3 Ebrill 2017 | 2017/309 (Cy. 80) (C. 29) |
| Rhan 11 | | |
| Adran 185 | 6 Ebrill 2016 | 2016/467 (Cy. 149) (C. 28) |
| (yn rhannol) | 3 Ebrill 2017 | 2017/309 (Cy. 80) (C. 29) |
| Adran 185 | 2 Ebrill 2018 | 2017/1326 (Cy. 299) (C. 121) |
| (yn rhannol) | | |
| Adran 185 | | |
| (yn rhannol) | | |
| Adran 185 | 29 Ebrill 2019 | 2019/864 (Cy. 156) (C. 21) |
| (yn rhannol) | | |

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Atodlen 1 (paragraffau 1 i 3 ac 8) | 2 Ebrill 2018 | 2017/1326 (Cy. 299) (C. 121) |
| Atodlen 1 (paragraffau 4 i 7, a 9) | 29 Ebrill 2019 | 2019/864 (Cy. 156) (C. 21) |
| Atodlen 2 | 3 Ebrill 2017 | 2017/309 (Cy. 80) (C. 29) |
| Atodlen 3 (yn rhannol) | 6 Ebrill 2016 | 2016/467 (Cy. 149) (C. 28) |
| Atodlen 3 (yn rhannol) | 3 Ebrill 2017 | 2017/309 (Cy. 80) (C. 29) |
| Atodlen 3 (yn rhannol) | 2 Ebrill 2018 | 2017/1326 (Cy. 299) (C. 121) |
| Atodlen 3 (yn rhannol) | 29 Ebrill 2019 | 2019/864 (Cy. 156) (C. 21) |

*Gweler* hefyd adran 188(2) o'r Ddeddf ar gyfer darpariaethau a ddaeth i rym ar 19 Ionawr 2016 (y diwrnod ar ôl dyddiad y Cydsyniad Brenhinol).